OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1147 (Cy.102)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*30 Mawrth 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 11 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 22 o Atodlen 2 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "y BILl" ("*the LHB*") yw Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009(**2**);

ystyr "cyn Gomisiwn Iechyd Cymru" ("*the former Health Commission Wales*") yw Comisiwn Iechyd Cymru a oedd yn gyfrifol hyd 31 Mawrth 2010 am arfer swyddogaethau comisiynu Gweinidogion Cymru yng Nghymru mewn perthynas â gwasanaethau gofal arbenigol a thrydyddol a restrir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009 a wnaed ar 1 Hydref 2009;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Ebrill 2010; ac

ystyr "swyddfa CIC" ("*the HCW office*") yw Uned 3a Parc Busnes Caerffili, Caerffili, CF83 3ED.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2009/778 (Cy.66).